



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

## Trefn i Gymeradwyo a Chofrestru Projectau Ymchwil Sensitif

Adol.	Dyddiad	Pwrpas Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i Gwblhau
1.	Mai 2016	Cyhoeddiad Cyntaf	17eg Mehefin, 2016

Swyddog Polisi	Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol	Cymeradwywyd gan	Dyddiad
Pennaeth Cydymffurfio	Ysgrifennydd y Brifysgol	Pwyllgor Moeseg y Brifysgol	11eg Mai, 2016

*Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen blwyddyn.*

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r drefn ar gyfer cymeradwyo a chofrestru projectau ymchwil sensitif a wneir gan aelodau o'r staff a myfyrwyr ôl-raddedig<sup>1</sup> ym Mhrifysgol Bangor.

Mae Prifysgol Bangor yn cefnogi'i hymchwilyr wrth ymgymryd ag ymchwil ddilys gan ddefnyddio deunydd sensitif. Fel rhan o hyn mae'n cydnabod y cyfrifoldeb sydd arni i sicrhau bod ymchwilyr yn cael eu diogelu rhag camddehongli bwriad gan yr awdurdodau sy'n gallu arwain at sancsiynau cyfreithiol. Mae felly'n hanfodol fod y Brifysgol yn ymwybodol o waith ymchwil o'r fath, ac yn ei awdurdodi drwy'r prosesau moesegol priodol, cyn i'r gwaith ymchwil ddechrau, gan ganiatáu felly i'r Brifysgol ddangos ei bod yn ymwybodol o'r project a'i fod wedi bod drwy'r broses adolygu briodol.

## 2. Diffiniad

Bydd diffiniad Prifysgol Bangor o brojectau ymchwil sensitif yn cynnwys y canlynol, ond heb ei gyfyngu iddynt:

1. Gwaith ymchwil y bydd y Brifysgol a/neu'r ariannwr yn barnu ei fod yn sensitif, e.e.
  - a. Deunyddiau sy'n dod o dan Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989, Deddf Terfysgaeth 2006 a Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015;
  - b. Deunyddiau a welwyd ac a ddefnyddiwyd ar gyfer projectau a gomisiynwyd gan Fyddin Prydain;
  - c. Projectau ymchwil sy'n mynnu bod ymchwilyr yn cael awdurdodiadau diogelwch penodol;
2. Gwaith ymchwil a all gynnwys torri cyfraith droseddol, cael mynediad at ddeunyddiau anghyfreithlon neu waharddedig, a/neu gyfweld unigolion sydd wedi/neu all fod yn ystyried cyflawni trosedd e.e.:
  - d. Ymchwilyr sy'n gwneud gwaith ymchwil troseddegol, a all ofyn am gael mynediad at ddeunyddiau anghyfreithlon neu waharddedig, neu gyfweld unigolion sydd wedi/neu all fod yn ystyried cyflawni trosedd.
  - e. Deunyddiau sy'n dod o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 a Deddf Amddiffyn Plant 1978 gan gynnwys pornograffi a lluniau o gam-drin plant

Cydnabyddir y gall deunyddiau ymchwil eraill, na chrybwyllir mohonynt uchod, hefyd gael eu hystyried fel rhai sensitif. Os oes unrhyw amheuaeth, dylai ymchwilydd gysylltu â chadeirydd y Pwyllgor Moeseg Academaidd perthnasol am gyngor a chyfarwyddyd pellach.

---

1 Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol (e.e. gwaith ymchwil dilys i ymddygiad troseddol, terfysgaeth ayyb.) y byddai'r Brifysgol yn caniatáu i israddedigion ymgymryd â phrojectau ymchwil sensitif. Byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud gan y Grŵp Cymeradwyo Ymchwil Sensitif.

### 3. Proses Cymeradwyaeth Foesebol i Ymchwil Sensitif

- [a] Yn unol ag Adran 5 Polisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol dylai pob gwaith ymchwil sydd a wnelo â phobl yn cyfrannu lle mae mwy na risg bychan gael ei adolygu gan Bwyllgor Moeseg Academaidd (PMA) priodol. Ystyrir y gweithgareddau ymchwil a amlinellir yn Adran 2 uchod fel rheol fel rhai sy'n cynnwys mwy na risg bychan ac sydd, o'r herwydd, angen eu cyflwyno i'r PMA priodol yn y lle cyntaf.
- [b] Yn ôl diffiniad Adran 4.4 o Bolisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol mae gwaith ymchwil sydd i'w gynnal y tu allan i'r DU neu sy'n cynnwys partneriaid o'r tu allan i'r DU yn ychwanegu lefel uwch o gyfrifoldeb a chraffu a dylai ymchwilwyr sicrhau eu bod wedi ystyried yn llawn unrhyw ofynion cyfreithiol a gofynion unrhyw gyrrff proffesiynol perthnasol cyn cyflwyno'r cais i'r PMA priodol. Os gwneir ymchwil mewn sefydliad mewn gwlad dramor, dylid hefyd ofyn am gymeradwyaeth gan y pwyllgor perthnasol yn y sefydliad hwnnw (lle bo'n bosibl).
- [c] Pan fydd Prifysgol Bangor yn cyfrannu at broiect, neu pan fydd ymchwilwyr o sefydliad neu gorff arall am gasglu data ymchwil sy'n dod o dan y diffiniad yn Adran 2 uchod fel rheol bydd cymeradwyaeth foesebol gan y sefydliad(au) neu'r corff/cyrrff eraill yn dderbyniol fel prawf fod project neilltuol wedi ei adolygu'n iawn a chymeradwyaeth wedi ei rhoi. Fodd bynnag, dylai hysbysiad o'r gymeradwyaeth foesebol, ynghyd â'r protocol ymchwil, gael eu hanfon at Gadeirydd y Pwyllgor Moeseg Academaidd perthnasol a gall yntau neu hithau ddewis cyfeirio'r cynnig at y Grŵp Cymeradwyo Ymchwil Sensitif.
- [d] Lle bydd Cadeirydd y PMA perthnasol yn ystyried bod y cynnig ymchwil yn dod o dan un o'r categorïau a amlinellir yn Adran 2 uchod, neu os oes unrhyw ansicrwydd ynghylch ei sensitifrwydd, dylent gysylltu â Phennaeth Cydymffurfio y Brifysgol mor fuan â phosibl a dylent gynnwys y cais / cynnig ymchwil a gyflwynwyd i'r PMA gan yr ymgeisydd.
- [e] Bydd y Pennaeth Cydymffurfio wedyn yn galw cyfarfod o'r Grŵp Cymeradwyo Ymchwil Sensitif i ystyried yr ymchwil. Bydd aelodaeth y Grŵp fel a ganlyn:

Ysgrifennydd y Brifysgol (Cadeirydd)

Cadeiryddion holl Bwyllgorau Moeseg Academaidd y Brifysgol  
Pennaeth Cydymffurfio

Y cworwm ar gyfer y Grŵp Cymeradwyo Ymchwil Sensitif yw o leiaf 3 Cadeirydd PMA.

Pan fydd cynnig neilltuol o sensitif neu gymhleth dan ystyriaeth mae gan Gadeirydd y Grŵp Cymeradwyo Ymchwil Sensitif y rhyddid i gyfethol arbenigwyr perthnasol naill ai o'r Brifysgol neu o asiantaethau allanol i roi cyngor a hysbysu'r broses benderfynu. Efallai y gofynnir hefyd i'r ymchwilydd a'i oruchwyliwr fynychu.

- [f] Dylai y Pennaeth Cydymffurfio hysbysu canlyniad y cyfarfod wrth yr ymchwilydd a'r goruchwyliwr. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg perthnasol a'r Pennaeth Ysgol perthnasol hwythau yn cael eu hysbysu.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu hefyd yn derbyn rhestr o'r projectau ymchwil sensitif a gymeradwyir.

[g] Pan fydd ymchwilydd yn anfodlon ar benderfyniad y Grŵp Cymeradwyo Ymchwil Sensitif gellir gwneud apêl i Gadeirydd Pwyllgor Moeseg y Brifysgol.

#### **4. Proses Gofrestru Ymchwil Sensitif**

Unwaith y bydd cynnig ymchwil wedi cael cymeradwyaeth foesebol gan y Grŵp Cymeradwyo Ymchwil Sensitif bydd y Pennaeth Cydymffurfio yn cofrestru'r cynnig ymchwil ar y Gronfa Ddata Ymchwil Sensitif a ddelir ar ran ddiogel o rwydwaith y Brifysgol.

Ni ddylai deunydd ymchwil sydd o dan ofynion y Drefn hon ac felly'n cael ei ystyried yn ddeunydd sensitif, gael ei gadw, o dan unrhyw amgylchiadau, ar gyfrifiadur personol yr ymchwilydd, nac ar rannau anniogel gyriannau rhwydwaith y Brifysgol (M/U). Mae cadw gwybodaeth ar rannau diogel dynodedig y rhwydwaith yn sicrhau bod y Brifysgol yn ymwybodol o'r project ymchwil os bydd unrhyw ymholiadau allanol, a hefyd yn gwarchod yn erbyn camddehongli bwriad gan yr awdurdodau a allai arwain at sancsiynau cyfreithiol. . Gall y Ganolfan Cefnogi TG gynorthwyo gyda chreu ffolderi diogel a dyrannu'r hawliau mynediad atynt. Os bydd ymchwilydd angen caniatáu mynediad atynt i gydweithiwr o'r tu allan i'r Brifysgol yna dylid rhoi enw defnyddiwr Bangor iddynt o dan y ddarpariaeth Mynediad at Adnoddau a gellir trefnu hyn drwy Adnoddau Dynol.

Fel rhan o'r broses hon, bydd gofyn i ymchwilwyr sy'n dilyn y Broses Cymeradwyaeth Foesebol i Ymchwil Sensitif a amlinellir yn Adran 3 uchod, gysylltu â Gwasanaethau TG er mwyn trefnu i sefydlu rhan ddiogel briodol, gyda threfniadau mynediad wedi'u diffinio'n eglur, ar gyfer storio'r deunydd hwn. Dylai pob data corfforol e.e. adroddiadau/llawlyfrau/ffurflenni cydsynio/holiaduron ayyb. gael eu sganio a'u llwytho i fyny ar ddreif diogel y project, gyda'r copïau caled wedyn yn cael eu dinistrio'n ddiogel.

Bydd gan y Pennaeth Cydymffurfio ac Ysgrifennydd y Brifysgol drosolwg o'r defnydd sy'n cael ei ddatgan ar ddeunydd ymchwil sensitif o ran diogelwch. Diben y trosolwg yw caniatáu ymateb sydyn i ymholiadau mewnol ac allanol ynghylch y defnydd a ddatgenir o ddeunydd sensitif o ran diogelwch. Bydd y Pennaeth Cydymffurfio yn ymwybodol o enwau'r ymchwilwyr fydd â gwybodaeth wedi mewngofnodi ar ran ddiogel o'r rhwydwaith, ac yn ymwybodol o'r metadata (e.e. teitlau) ar gyfer dogfennau a storir ar ddreif diogel project yr ymchwilydd, ond nid o gynnwys y dogfennau eu hunain. Bydd y trosolwg hwn yn cynnig diogelwch i'r ymchwilwyr, sy'n datgan eu bod yn defnyddio deunydd ymchwil sensitif o ran diogelwch, gan ei fod yn sicrhau bod y deunydd ymchwil yn cael ei gadw'n ddiogel ac o hyd braich oddi wrth ymyrraeth o'r tu allan (oni bai bod angen mynediad am resymau cyfreithiol), a hynny'n gyfnewid am fod yn agored ynghylch eu defnydd ar ddeunydd sensitif o ran diogelwch.

#### **5. Trefn i Aelodau o'r Staff / Asiantaethau Allanol sydd Angen Cadarnhad am Broiectau Ymchwil Sensitif Dilys y Brifysgol**

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei chyfrifoldeb i sicrhau bod ymchwilwyr yn cael eu hamddiffyn rhag camddehongli bwriad gan awdurdodau sy'n gallu arwain at sancsiynau cyfreithiol. Efallai y bydd aelodau o'r staff, yr heddlu a/neu asiantaethau eraill am gysylltu â'r Brifysgol i holi a yw unigolyn

penodol yn cynnal gwaith ymchwil dilyn. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiad o'r fath at y Pennaeth Cydymffurfio yn y lle cyntaf, a fydd wedyn yn gwirio er mwyn sefydlu a yw canfod deunydd o'r fath neu bryderon yn ei gylch wedi'u cysylltu â phroject ymchwil cofrestredig.

## **6. Canllawiau Arfer Da**

### **[a] Defnyddio proffil y brifysgol wrth ymweld â gwefannau sensitif**

Dylai ymchwilwyr fod yn ymwybodol bod ymweld â gwefannau sensitif (hyd yn oed o safleoedd mynediad agored) fod yn destun monitro gan yr heddlu / awdurdodau eraill ac, os canfyddir hynny, gall gychwyn ymchwiliad gan yr heddlu. Mae'n ofynnol felly, wrth gynnal ymchwil o'r fath, fod cyfeiriad Protocol Mewnol y Brifysgol yn cael ei ddefnyddio i gael mynediad at safleoedd er mwyn sicrhau bod unrhyw ymholiadau am weithgareddau o'r fath yn cyrraedd y sefydliad yn y lle cyntaf.

### **[b] Adrodd**

Os bydd aelod o'r staff neu fyfyrwr yn dod yn ymwybodol o broject ymchwil sydd, yn eu barn hwy, angen trosolwg fel a amlinellir yn y Drefn hon yna anogir hwy i gysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Moeseg Ymchwil priodol neu â'r Pennaeth Cydymffurfio.

### **[c] Cydymffurfio a Monitro**

Mae pob aelod o'r Brifysgol (yn staff a myfyrwyr fel ei gilydd) yn uniongyrchol gyfrifol ac atebol am y wybodaeth y cânt fynediad ati ac y byddant yn ei thrin fel rhan o'u gwaith ymchwil. Mae'r staff a'r myfyrwyr wedi'u rhwymo i lynu wrth *Reoliadau Defnydd Derbyniol* y Brifysgol.

Mae'n rhaid adrodd am fethu â chydymffurfio â gofynion y polisi hwn mewn perthynas ag ymchwil fel a ddiffinnir yn Adran 2 uchod wrth y Pennaeth Cydymffurfio y Swyddfa Cynllunio a Llywodraethu yn y lle cyntaf. Gall camau disgyblu gael eu hystyried a gall y data ymchwil a gasglwyd fynd yn annilys.